sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Rheoleiddio hysbysebu bwyd a diod llai iach

## Gweithredu cyfyngiadau statudol newydd

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 21 Chwefror 2023
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 21 Ebrill 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

## Diben y ddogfen hon - yn gryno

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymagwedd arfaethedig Ofcom at weithredu cyfyngiadau newydd ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach, sydd wedi'u cyflwyno drwy Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.

Ar 28 Ebrill 2022, derbyniodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Gydsyniad Brenhinol. Ymhlith pethau eraill, mae wedi diwygio Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") i gyflwyno cyfyngiadau newydd ar hysbysebu a noddi cynhyrchion bwyd a diod sy'n llai iach, h.y. cynhyrchion bwyd a diod penodol sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr ("HFSS”). Mae'r cyfyngiadau newydd hyn yn berthnasol i hysbysebu ar wasanaethau rhaglenni teledu ac ar-alw ("ODPS") a reoleiddir gan Ofcom a hefyd ar-lein.

Yn gryno, mae gwasanaethau teledu ac ODPS wedi'u gwahardd rhag cynnwys hysbysebu a noddi mewn perthynas â chynhyrchion bwyd a diod llai iach rhwng 5.30am a 9.00pm; a gwaherddir hysbysebion y telir amdanynt am y cynhyrchion hyn, pan gânt eu hanelu at ddefnyddwyr y DU, rhag cael eu rhoi ar-lein ar unrhyw amser. O dan Ddeddf 2003 (fel y'i diwygiwyd), mae'r ddwy set o gyfyngiadau yn dod i rym o 1 Hydref 2025.

O dan Ddeddf 2003, Ofcom yw'r rheoleiddiwr statudol gyda chyfrifoldeb dros hysbysebu ar y teledu ac ODPS, yr ydym wedi sefydlu cyd-berthnasoedd rheoleiddio ar ei gyfer gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ("ASA"), y Pwyllgor Darlledu Arfer Hysbysebu ("BCAP") a'r Bwrdd Cyllid Safonau Darlledu ("BASBOF”). Gan ddilyn diwygiadau sy'n deillio o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, mae Deddf 2003 hefyd yn rhoi cyfrifoldeb i Ofcom dros reoleiddio hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach ar-lein, gyda'r pŵer i ddynodi cyd-reoleiddiwr.

**Ymagwedd Ofcom at weithredu'r cyfyngiadau**

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymagwedd Ofcom at weithredu'r cyfyngiadau newydd ar hysbysebu a noddi cynhyrchion bwyd a diod llai iach ar y teledu, ODPS ac ar-lein. Mae hefyd yn cadarnhau bod y cyfyngiadau newydd ar deledu ac ODPS yn dod o dan y trefniadau cyd-reoleiddio presennol sy'n berthnasol i hysbysebu ar y cyfryngau hyn.

**Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod BCAP a'r Cod Darlledu, ac ar y cynnig i ddynodi'r ASA yn gyd-reoleiddiwr ar gyfer y cyfyngiadau ar-lein**

Mae Ofcom yn ymgynghori hefyd ar ddiwygiadau arfaethedig i God Hysbysebu Darlledu'r DU ("y Cod BCAP") a'r Cod Darlledu, er mwyn adlewyrchu'r cyfyngiadau newydd ar hysbysebu a noddi ar y teledu mewn perthynas â chynhyrchion bwyd a diod llai iach. O ran hysbysebu ar y teledu, bwriad Ofcom yn sgil canlyniad yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfarwyddyd i BCAP i weithredu'r diwygiadau angenrheidiol i'r Cod BCAP. Mae Ofcom hefyd yn ymgynghori ar gynnig i ddynodi'r ASA yn gyd-reoleiddiwr ar gyfer y gwaharddiad newydd ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach ar-lein.

Rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ar gwestiynau'r ymgynghoriad. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 21 Ebrill 2023.